

COFNODION

Dyddiad: Dydd Mercher, 26 Tachwedd 2003

Amser: 9.00am - 12.10pm

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Yn
Bresennol:** Aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

David Melding (Cadeirydd)	Canol De Cymru
Jocelyn Davies	Dwyrain De Cymru
John Griffiths	Dwyrain Casnewydd
Jane Hutt (Gweinidog)	Bro Morgannwg
Ann Jones	Dyffryn Clwyd
Val Lloyd	Dwyrain Abertawe
Jonathan Morgan	Canol De Cymru
Gwenda Thomas	Castell-nedd
Rhodri Glyn Thomas	Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr
Kirsty Williams	Brycheiniog a Sir Faesyfed

Swyddogion yn Bresennol

Therese Gray	Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol
Dr Ruth Hall	Y Prif Swyddog Meddygol
Ann Lloyd	Cyfarwyddwr, GIG Cymru

Phil Morgan

Yr Asiantaeth Safonau Bwyd

Helen Thomas

Cyfarwyddwr, yr Adran Polisi Cymdeithasol

Graham Williams

Prif Arolygydd, Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol
Cymru

Yr Ysgrifenyddiaeth:

Jane Westlake

Clerc y Pwyllgor

Claire Morris

Dirprwy Glerc y Pwyllgor

Peter Jones

Cwnsler y Pwyllgor

Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, eilyddion a datganiadau o fuddiant

1.1 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

1.2 Gwnaed y datganiadau canlynol o fuddiant o dan Reol Sefydlog 4.5:

- Val Lloyd, nyrs gofrestrdig
- Kirsty Williams, yn briod â cynhyrchydd cig eidion.

1.3 Estynnodd y Cadeirydd groeso i Rhodri Glyn Thomas i'w gyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor.

1.4 Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau bod y diwygiadau i Orchymyn Proffesiynau Iechyd Cymru (Sefydlu, Aelodaeth, Cyfansoddiad a Swyddogaethau) 2003, wedi'u derbyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru y bore hwnnw. Nid oedd hyn yn cydymffurfio â'r protocol y cytunodd y Pwyllgor arno ar gyfer delio â deddfwriaeth, ond roedd yn bwriadu caniatáu'r eitem os oedd yr Aelodau'n cytuno nad oedd y diwygiadau'n ddadleuol. Mae copi o'r diwygiadau yn Atodiad A.

Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog (9.10 - 10.20am)

Papur: HSS(2)-07-03(p.1)

2.1 Wrth ymateb i sylwadau a chwestiynau'r Aelodau am ei hadroddiad, gwnaeth y Gweinidog y pwyntiau canlynol:

Adolygiad o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru (Wanless)

- Rôl y swyddfeydd rhanbarthol fyddai hwyluso Cynlluniau Gweithredu Wanless lleol. Byddant yn cael eu harwain gan y Bwrdd Iechyd Lleol am mai nhw oedd y prif gomisiynwyr.
- Cytunwyd bod angen gwneud rhai newidiadau i'r gwasanaethau. Dylai Aelodau'r Cynulliad ddangos arweiniad trwy ganiatáu i bob opsiwn ar gyfer aildrefnu gwasanaethau gael ei archwilio'n wrthrychol. Byddai'n rhaid ymgynghori ar unrhyw newidiadau a gynigir yn unol â'r gofyniad statudol.

Rhoi'r Cynllun Fferylliaeth ar Waith

- Roedd argymhellion 'Moddion i Lwyddo' yn cael eu gweithredu, gan gynnwys rhagnodi atodol ac awtomateiddio mewn gofal eilaidd.
- Nid oedd 'Moddion i Lwyddo' yn sôn am ragnodi yn unig. Roedd yn ystyried rôl fferyllwyr cymunedol hefyd.
- Roedd fferylliaeth wedi'i awtomateddio wedi gwneud gwahaniaeth mawr yn ysbytai Llandochau, Glan Clwyd a Glangwili. Roedd yn lleihau camgymeriadau wrth reoli meddygyniaethau, ac roedd wedi sicrhau bod staff ar gael i wneud y swyddi y maent wedi'u hyfforddi ar eu cyfer, yn hytrach na phacio meddygyniaethau mewn fferyllfa.
- Roedd y broblem o ran yr amser yr oedd fferyllwyr yn aros am eu cyflogau wedi'i ddatrys gan Atebion Iechyd Cymru.
- Cynhaliwyd astudiaeth beilot yng Ngwent ar gyflenwi meddygyniaethau'n uniongyrchol, a bwriedir bwrw ymlaen ag ef.
- Cynhaliwyd trafodaethau â'r diwydiant fferyllol ynghylch caffael canolog ac effaith unrhyw newidiadau. Roedd Grwp Strategaeth Meddygyniaethau Cymru Gyfan wedi derbyn tystiolaeth gan randdeiliaid, a ofynnodd iddynt beidio â gwneud newidiadau ar sail adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) ar gaffael meddygyniaethau gofal sylfaenol, yn unig. Roedd Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad hefyd wrthi'n ystyried y mater. Byddai Fferyllwyr a Meddygon Teulu'n cymryd rhan mewn unrhyw gynlluniau peilot.

Heintiau Cysylltiedig â Gofal Iechyd

- Bydd adroddiad interim ar lefel yr heintiau cysylltiedig â gofal iechyd ers cyhoeddi'r Cylchlythyr Iechyd ym mis Ebrill, yn cael ei gynnwys yn adroddiad nesaf y Gweinidog.

Y Diweddaraf ar Adroddiad Carlile

- Roedd y rhaglen hyfforddi garlam 18 mis ar nyrsio plant ar gael i nyrsys cofrestredig nad ydynt yn arbenigo mewn gofal plant ond a oedd yn gweithio mewn meysydd lle'r oeddent yn dod i gysylltiad rheolaidd â phlant.

Gwasanaethau Diabetes yng Nghymru

- Roedd yr arian ychwanegol i ddarparu hyfforddiant ar gyfer Prosiect y Cleifion Arbenigol wedi'u neilltuo i gynorthwyo'r cynlluniau peilot ynghyd â'r broses o weithredu'r prosiect.
- Roedd y cysylltiad rhwng gordewdra a diabetes wedi'i gydnabod, a dylid mynd i'r afael ag ef trwy gyfrwng y strategaeth maeth a lles. Roedd angen newid diwylliant a newid mewn agweddau, gan ddechrau gyda phlant a phobl ifanc.
- Cafwyd trafodaethau â'r Athro Geraint Williams, Diabetes UK Cymru, ynghylch cynllunio'r gweithlu. Roedd yn hollbwysig bod digon o gofrestryddion arbenigol yn cael eu hyfforddi yng Nghymru i lenwi swyddi ymgynghorol wrth iddynt ddod ar gael. Dylai'r contract newydd ar gyfer ymgynghorwyr fod yn fuddiol.
- Byddai'r Gweinidog yn cael cyngor ar ddichonoldeb rhaglen sgrinio ar gyfer diabetes Teip 2 (nad yw'n ddibynnol ar inswlin).
- Byddai'r Gweinidog yn sôn am hynt y cynllun gweithredu epliepsi yn ei hadroddiad nesaf.

Cyd-adolygiadau o Wasanaethau Cymdeithasol

Arolygiad o Wasanaethau Plant yng Nghaerdydd

- Ystyriwyd mai'r cam olaf un fyddai defnyddio pwerau ffurfiol y Cynulliad. Byddant yn cael eu defnyddio pe na bai ymateb yr awdurdod lleol yn tawelu'r pryder difrifol a hynny o fewn amser rhesymol. Penderfynodd y Gweinidog ar ôl derbyn adroddiad dilynol Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGCC) nad oedd yn fodlon â goruchwyllo'r broses o roi'r cynllun gweithredu ar waith yn unig, ac aeth ati i arfer y protocol yr oedd Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi cytuno arno ar gyfer delio â phryderon difrifol.

Dywedodd Therese Gray, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol, bod pwerau gan y Cynulliad o dan Adrdan 84 Deddf Plant 1989, i roi cyfarwyddyd i awdurdod pe bai'n methu, neu'n debygol o fethu ag arfer ei swyddogaethau. Nodwyd yn glir y byddai awdurdodau o'r fath yn cael pob cyfle i ymdrin â'r sefyllfa eu hunain. Sector 84 oedd y cam olaf un, a disgwyliwyd y byddai protocolau yn eu lle i ddisgrifio'n glir beth fyddai'r Cynulliad yn disgwyl i'r awdurdodau ei wneud cyn ei fod yn cymryd y cam hwnnw. Pe bai'r Cynulliad yn esgeulso'r protocol, roedd perygl y gallai'r awdurdod lleol gyhuddo'r Cynulliad o ymddwyn yn afresymol neu y tu allan i'w bwerau. Nid oedd y Gweinidog wedi'i rhwymo'n gyfreithiol i'r protocol, ac felly gallai ymadael ag ef os oedd yn teimlo bod angen gwneud hynny. Byddai'r cyngor a gafodd y Gweinidog wedi ystyried yr holl arolygiadau ac adroddiadau ar wasanaethau plant yng Nghaerdydd ac nid y rhai diweddaraf yn unig, yn ogystal â barn AGCC bod gwaith da wedi'i wneud a bod yr awdurdod yn cymryd camau priodol.

Trefniadau yn y Dyfodol ar gyfer Cyd-adolygiadau

- Byddai'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael yn llyfrgell yr Aelodau.
- Byddai papur ar y mater hwn yn cael ei gyflwyno yn y Flwyddyn Newydd.

Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMS)

- Cafwyd y costau cychwynnol gan y Byrddau Iechyd Lleol ar gyfer darparu gwasanaethau y tu allan i oriau arferol. Ni fyddai modd cyhoeddi'r costau hyn nes eu bod wedi cytuno ar gynlluniau.
- Cydnabyddwyd bod cysylltiad rhwng swyddogaethau'r gwasanaeth y tu allan i oriau arferol, Galw Iechyd Cymru, adrannau Damweiniau ac Argyfwng a'r Gwasanaeth Ambiwylans.
- Cydnabyddwyd y byddai darparu gwasanaeth y tu allan i oriau arferol mewn ardaloedd gwledig yn sialens, ac y byddai'n anodd pennu'r pellter mwyaf y byddai'r meddygon yn ei deithio.
- Roedd y gwaith o ddatblygu telefeddygaeth yn symud ymlaen a byddai'n bwysig, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

Gwethusiad Gwerth am Arian Gwent

- Aeth y datblygiad yn St Woolos rhagddo cyn datblygiad Ysbyty Neville Hall, gan y byddai mwy o gleifion yn elwa ohono.
- Roedd y cynlluniau ar gyfer y datblygiad yn Ysbyty Neville Hall yn cael eu trafod â'r Ymddiriedolaeth.

Contract Ymgynghorydd

- Byddai £90 miliwn ar gael ar gyfer y contract newydd o 1 Rhagfyr 2003.

Rheoliadau a Safonau Asiantaethau Gofal yn y Cartref (Cymru)

- Caiff y canllawiau eu cyhoeddi gyda'r rheoliadau.
- Nid oedd y Gweinidog yn ymwybodol o unrhyw broblemau ym Mwrdd Iechyd Lleol Caerdydd o ran cyllid ar gyfer cleifion sydd wedi cael strôc. Gofynnodd i Jonathan Morgan ddarparu unrhyw wybodaeth a oedd ganddo a byddai Cyfarwyddwr GIG Cymru yn ystyried y mater. Ar gais y Cadeirydd, cytunodd y Gweinidog i roi adroddiad ar y cyllid ar gyfer salwch cronig fel strôc, nawr bod y trefniadau comisiynu newydd trwy gyfrwng y Byrddau Iechyd Lleol bellach yn eu lle.

Amseroedd Aros

- Erbyn mis Ebrill 2004, ni fyddai unrhyw un yn aros am 18 mis heb gael cynnig triniaeth mewn man arall. Nid oedd yn ateb priodol i bawb, a byddai'n rhaid penderfynu beth i'w wneud pe na bai pobl yn gallu derbyn yr ail opsiwn. Byddai gwybodaeth ychwanegol mewn eitem ar wahân yn adroddiad nesaf y Gweinidog.

Gweithredu

- Yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y trefniadau ar gyfer cyd-adolygiadau yn y dyfodol ar gael yn llyfrgell yr Aelodau.
- Cyflwyno papur yn y Flwyddyn Newydd ar y trefniadau ar gyfer cyd-adolygiadau yn y dyfodol.
- Ystyried gwahodd aelodau Ymddiriedolaeth GIG Gwent i fynychu un o gyfarfodydd y Pwyllgor.
- Darparu adroddiad ar gyllid ar gyfer salwch cronig fel strôc nawr bod y trefniadau comisiynu newydd trwy gyfrwng y Byrddau Iechyd Lleol bellach yn eu lle.
- Cynnwys yr eitemau canlynol yn adroddiad nesaf y Gweinidog:
- Adroddiad interim ar lefel yr heintiau cysylltiedig â gofal iechyd ers cyhoeddi'r Cylchlythyr Iechyd ym mis Ebrill 2003.
- Adroddiad ar hynt y Cynllun Gweithredu Epilepsi.
- Adroddiad ar hynt y Cynllun Ail Gynnig fel eitem ar wahân.

Eitem 3: Arolygiad o Wasanaethau Cymdeithasol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc: Cyngor Dinas a Sir Caerdydd (10.20 - 10.50am)

Papurau: HSS(2)-07-03(p.2); HSS(2)-07-03(p.2a); HSS(2)-07-03(p.2b);

3.1 Wrth ymateb i sylwadau a chwestiynau gan Aelodau, gwnaeth Prif Arolygydd y Gwasanaethau Cymdeithasol y pwyntiau canlynol:

- Byddent wedi argymhell arolygu Cyngor Caerdydd yn 2004 pe na byddai'r Cyngor ar fin cael arolygiad beth bynnag fel rhan o'r rhaglen bum mlynedd.
- Nid oeddent yn bwriadu cynnal yr arolygiad cyn diwedd 2004 am fod yr awdurdod angen amser i wneud y gwelliannau angenrheidiol ac am y byddai AGCC yn rhan o'r broses o fonitro bod y targedau'n cael eu

cyflawni.

- Roedd yr holl awdurdodau yng Nghymru wedi cael canllawiau cynhwysfawr ar gynllunio gweithlu yn gynharach yn ystod y flwyddyn. Byddai gofyn i'r Awdurdodau gyflwyno gwybodaeth ar gynllunio gweithlu yn 2004.
- Roedd arolygon ymadael yn awgrymu bod awdurdodau'n cael trafferth cadw staff oherwydd diffyg rheolaeth a goruchwyliaeth a gormod o bwysau o ran llwyth gwaith. Byddai gofyn i Gyngor Caerdydd roi tystiolaeth bod fframweithiau a champau diogelwch yn eu lle i sicrhau bod y staff yn cael eu goruchwyllo'n well, bod ganddynt well syniad o'r safonau y disgwylir iddynt eu dilyn a'u bod yn teimlo y gallant wneud eu gwaith yn ddiogel.
- Roedd disgwyl i'r awdurdod nodi'r wybodaeth allweddol sy'n angenrheidiol i wneud asesiad addas o anghenion y plant. Pe na byddai asesiad llawn yn bosibl, yna byddai angen cynnal asesiad risg cynhwysfawr a oedd yn ystyried yr amgylchiadau newidiol yn llawn.
- Roedd angen datblygu ffyrdd o roi mwy o ddewis a sefydlogrwydd o ran lleoliadau.
- Pwysleisiwyd pwysigrwydd arweiniad proffesiynol yn ogystal ag arweiniad gwleidyddol i'r awdurdod.
- Roedd ymateb Caerdydd wedi bod yn galonogol o ran ymrwymiad y swyddogion ar lefel gorfforaethol a rheolaethol, a'u parodrwydd i gydweithio â AGCC.
- Roedd yr awdurdod wedi gwneud gwelliannau dros dro ond roedd angen cynlluniau parhaol i gryfhau'r gwasanaethau. Penodwyd tîm rheoli newydd yn ddiweddar a dylai hwn roi blaenoriaeth i wella'r ffordd y caiff y gwasanaethau eu gweithredu.
- Roedd arolygiad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd i amddiffyn oedolion agored i niwed.
- Roedd penderfyniad AGCC i werthuso perfformiad yn flynyddol yn bwysig. Byddai'n sicrhau bod yr Arolygiaeth yn ymwybodol o berfformiad yr adran gwasanaethau cymdeithasol yn barhaus. Byddai'n defnyddio canfyddiadau arolygon ac arolygiadau ar y cyd a fyddai'n parhau ar sail rhaglen bum mlynedd.

3.2 Cyflwynodd y Gweinidog y pwyntiau canlynol:

- Datblygwyd y protocol dros gyfnod o ddwy flynedd ar y cyd â llywodraeth leol.
- Pe byddai'r awdurdod yn methu â mynd i'r afael â'r prif bryderon, cam nesaf y broses fyddai defnyddio pwerau ffurfiol.
- Er mai'r gwasanaethau plant oedd yn peri'r pryder mwyaf, roedd yna gynllun gweithredu ar gyfer yr holl wasanaethau cymdeithasol yng Nghaerdydd.
- Byddai'r Pwyllgor yn cael adroddiadau ar hynt y cynlluniau gweithredu yn rheolaidd.

3.3 Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r Pwyllgor yn parhau i fonitro'r sefyllfa ac y byddai'n disgwyl gweld gwelliannau mawr.

Pwynt Gweithredu

- Rhoi adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor ar hynt y cynlluniau gweithredu.

Eitem 4: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r Adolygiad o Iechyd a Gofal Cymdeithasol (11.20 - 11.40am) Papur: HSS(2)-05-03(p.3)

4.1 Parhaodd y Pwyllgor â'i drafodaeth ar ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r Adolygiad o Ofal Iechyd a

Chymdeithasol yng Nghymru, a oedd wedi'i gohirio ers y cyfarfod ar 5 Tachwedd.

4.2 Mewn ymateb i sylwadau a chwestiynau gan yr Aelodau, gwnaeth y Gweinidog y pwyntiau canlynol:

- Byddai nodyn esboniadol ar gyfrinachedd a diogelu data mewn perthynas â chofnodion cleifion electronig yn cael ei ddarparu.
- Byddai 'Hysbysu Gofal Iechyd' yn cael ei lansio ym mis Rhagfyr a byddai'n cynnwys yr holl broffesiynau yn y sector gofal iechyd.
- Nodwyd gallu'r Cynghorau Iechyd Cymuned (CIC) i gynnig modelau gwasanaeth gwahanol os oeddent yn gwrthwynebu i unrhyw gynlluniau arfaethedig i ad-drefnu gwasanaethau.
- Roedd system yn cael ei datblygu i wobrwyo Byrddau Iechyd Lleol (BILl) am weithredu amcanion yn dda a gwella eu perfformiad, a diddymu annibynnuaeth y rhai a oedd yn methu â gweithredu eu hamcanion. Byddai'r Pwyllgor yn cael rhagor o fanylion ar hyn.
- Roedd yna fframwaith a oedd yn cynnwys cytundebau polisi er mwyn rhoi gofal cymdeithasol ar frig agenda'r awdurdodau lleol. Roedd dangosyddion perfformiad wedi'u cyflwyno ar gyfer trosglwyddiadau gofal.
- Roedd angen cynllunio cyllidebau a'u trefnu ar lefel leol, a'r BILl oedd y cyfrwng addas ar gyfer datblygu iechyd, gofal cymdeithasol a strategaethau lles. Roeddent yn cynrychioli'r gymuned leol ac yn atebol iddi. Roedd y CIC hefyd yn cynrychioli'r gymuned wrth fonitro'r BILl.

Pwynt Gweithredu

- Darparu nodyn esboniadol ar gyfrinachedd a diogelu data mewn perthynas â chofnodion cleifion electronig.
- Rhoi rhagor o fanylion am y system a oedd yn cael ei datblygu i wobrwyo Byrddau Iechyd Lleol (BILlau) am weithredu eu hamcanion yn dda a gwella eu perfformiad, a diddymu annibynnuaeth y rhai a oedd yn methu â chyflawni eu hamcanion.

Eitem 5: Y Cynnydd o ran Cyflawni Argymhellion Adroddiad y Pwyllgor Blaenorol ar Oblygiadau Adroddiad Ymchwiliad Phillips (BSE) i Gymru (11.40 - 11.50am)

Papur: HSS(2)-07-03(p.3)

5.1 Wrth ymateb i sylwadau a chwestiynau'r Aelodau am ei hadroddiad, gwnaeth y Gweinidog y pwyntiau canlynol:

- Roedd y Gweinidog yn ymgynghori â'i chyd-Weinidogion yn y DU ar adolygiad yr Awdurdod Safonau Bwyd o'r Rheol Dros Dri Deg Mis. Byddai'n rhaid i unrhyw benderfyniad fod o fantais i'r defnyddwyr a hyder y cyhoedd.
- Byddai papur yn cael ei ddarparu ar y peryglon sy'n gysylltiedig â gwaed a chynhyrchion gwaed.
- Byddai'n rhaid i'r Strategaeth Gofal Lliniarol fynd i'r afael ag anghenion cleifion nad ydynt yn gleifion canser.

5.2 Dywedodd Dr Ruth Hall, y Prif Swyddog Meddygol, bod y Canllawiau i Feddygon Teulu yn cael eu hadolygu'n gyson a'u bod yn un o'r eitemau safonol ar agendâu ei chyfarfodydd rheolaidd â chynrychiolwyr y

meddygon teulu. Nid oedd unrhyw ddatblygiadau ar y gallu i roi diagnosis ar gyfer vCJD. Dim ond trwy bost mortem y gellir ei gadarnhau. Ond roedd yn bwysig bod gweithwyr clinigol yn ei gadw mewn cof. Roedd hefyd yn fater pwysig i seiciatryddion a'r gwasanaeth iechyd meddwl, ac roedd wedi bod yn eitem yn y gynhadledd genedlaethol yn ddiweddar.

Pwynt Gweithredu

- Darparu papur ar y peryglon sy'n gysylltiedig â gwaed a chynhyrchion gwaed.

Eitem 6: Rhestr o Is-ddeddfwriaeth sy'n cael ei chynnig gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (11.50 hyd 11.55am)

Papur: HSS(2)-07-03(p.4a) a HSS(2)-04-03(p.4b)

6.1 Ni nodwyd unrhyw eitemau newydd i'w hystyried.

Eitem 7: Gorchymyn Proffesiynau Iechyd Cymru (Sefydlu, Aelodaeth, Cyfansoddiad a Swyddogaethau) 2003

Papurau: HSS(2)-07-03(p.5) a HSS(2)-07-03(p.5a)

7.1 Wrth ymateb i gwestiynau a godwyd gan yr Aelodau, gwnaeth y Gweinidog y pwyntiau canlynol:

- Gwelliant y Llywodraeth i erthygl 6(5)a - Prif Weithredwr Proffesiynau Iechyd Cymru i ddweud pa gymwysterau fyddai'n werthfawr wrth ymarfer ei swyddogaethau.
- Darparu papur ar nifer y pwyllgorau cynghori statudol yng Nghymru a'u rolau.

7.2 Dywedodd Peter Jones, Cwnsler y Pwyllgor, mai cyfrifoldeb y Cynulliad oedd penodi aelodau Hybu Iechyd Cymru ac mai penderfyniad y Cynulliad yn y pen draw oedd penderfynu ar gymwysterau a phrofiad addas. Nid oedd yn cyfeirio o gwbl at bwysigrwydd cael pŵer galluogi yn y Gorchymyn. Hy y pŵer yn ymwneud â chyfansoddiad HIC ac roedd un neu ddau o bwyntiau drafftio y byddai yn eu trafod â chyfreithwyr Llywodraeth y Cynulliad.

7.3 Byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Busnes yn dweud bod y Pwyllgor wedi ystyried y Gorchymyn ac wedi derbyn y gwelliannau a gyflwynodd y Llywodraeth. Nid oedd ganddo unrhyw beth i'w ychwanegu.

7.4 Gofynnodd Kirsty Williams a fyddai'n bosibl i'r Pwyllgor gael arfarniad rheoliadol a rheoliadau drafft yn y dyfodol.

Pwynt Gweithredu

- Y Cadeirydd i ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Busnes.
- Peter Jones, Cwnsler y Pwyllgor, i drafod yr ymholiadau drafftio â Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol.

Eitem 8: Cofnodion (12.05 - 12.10pm)

Papur: HSS(2)-05-03(min)

8.1 Nodwyd mai Ann Jones oedd yn bresennol yn y pwyllgor ar 5 Tachwedd ac nid Lynne Neagle. Cytunwyd ar y cofnodion yn amodol ar y gwelliant hwn.

Eitem 9: Unrhyw Fater Arall

9.1 Roedd y Cadeirydd wedi cael llythyr gan Leighton Andrews AC ynghylch Safle Tirlenwi Nantygwyddon. Byddai'r Aelodau'n cael copi ohono.

9.2 Dywedodd y Gweinidog bod y Bwrdd Iechyd Lleol wedi derbyn y pryderon a godwyd. Byddai'n ysgrifennu at Leighton Andrews ac yn rhoi copi o'i hymateb i'r Aelodau.